Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Ymgynghoriad ynghylch y llwybrau newydd arfaethedig yn y Fframwaith Prentisiaeth Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 01 Gorffennaf 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/31 |
| **At:** | Yr holl ddarparwyr prentisiaethau yn y sector adeiladu a gwasanaethau adeiladau yng Nghymru.<br>Yr holl gyflogwyr yn y sector adeiladu a gwasanaethau adeiladau yng Nghymru.<br>Mae gennym ddiddordeb mewn clywed barn prentisiaid cyfredol neu flaenorol.<br>Croesewir sylwadau gan ddarparwyr, cyflogwyr ac unigolion y tu allan i'r sector hwn hefyd. |
| **Ymateb erbyn:** | 31 Gorffennaf 2026 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | prentisiaethau@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cyhoeddi lansiad yr ymgynghoriad i geisio sylwadau ar y llwybrau newydd arfaethedig yn y Fframwaith Prentisiaeth Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau. Y llwybrau yw Lefel 2 Gosod Brics, Lefel 2 Gwaith Saer, Lefel 3 Gorchuddio Lloriau a Lefel 3 Oeri, Aerdymheru a Phympiau Gwres.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cefndir

1. Ers 2025, mae Medr wedi bod yn cynnal ‘adolygiad dwfn’ o’r sector adeiladu a gwasanaethau adeiladau, ochr yn ochr â chynnal adolygiad o’r fframweithiau prentisiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Yr amcan oedd pennu addasrwydd y Fframweithiau Prentisiaeth Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau, h.y. a ydynt yn diwallu angen y diwydiant ac yn diwallu anghenion sgiliau perthnasol sector adeiladu a gwasanaethau adeiladau Cymru.

2. Bu ymgysylltu a chydweithio helaeth gyda darparwyr prentisiaethau, cyflogwyr, Cymwysterau Cymru a CITB (Bwrdd Hyfforddi’r Diwydiant Adeiladu) yn ystod pob cam o’r broses hon.

## Yr ymgynghoriad

3. Yn unol â’r amcan hwn, rydym bellach yn ceisio sylwadau ynghylch y llwybrau newydd (**Atodiadau A-D**) arfaethedig a fydd yn eistedd o fewn y Fframwaith Prentisiaeth Adeiladu a Gwasanaethau Adeiladau.

4. **Nid oes cwestiynau gosod** mewn perthynas â’r llwybrau eu hunain, gan yr hoffem i ymatebwyr rannu eich meddyliau’n rhydd, heb unrhyw gyfyngiadau ar yr ystod o faterion yr hoffech wneud sylwadau arnynt.

5. Yn fwy eang, dylai ymatebwyr ystyried y meysydd canlynol hefyd:

### Y Gymraeg

6. A ellid newid y llwybrau newydd arfaethedig i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau andwyol, ar y canlynol:
    - Cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg
    - Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

### Effaith ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

7. A ellid newid y llwybrau newydd arfaethedig i gynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau andwyol, ar y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015?

### Effaith ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

8. A yw’r llwybrau newydd arfaethedig yn achosi unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant?

## Ymatebion

9. Dylid e-bostio ymatebion i prentisiaethau@medr.cymru erbyn 31 Gorffennaf 2026.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**